# Adduned ar y Cyd: Dull Lleihau Niwed wrth Ddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol ym Mhrifysgol Aberystwyth

Ar y cyd, mae Gwasanaethau Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, Undeb y Myfyrwyr, a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (GCAD) wedi ymrwymo i flaenoriaethu iechyd, diogelwch a lles ein myfyrwyr drwy ddull cynhwysfawr a blaengar o leihau niwed wrth ddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gyda chefnogaeth ein Grŵp Llywio Lleihau Niwed misol rheolaidd dan arweiniad ein Harweinydd Lleihau Niwed ymroddedig, ein nod yw:

- Blaenoriaethu lles myfyrwyr a'r gymuned drwy strategaethau lleihau niwed arloesol.
- Lleihau effeithiau iechyd, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau.
- Sicrhau mynediad hawdd a rhagweithiol at gymorth ac adnoddau.
- Meithrin amgylchedd meddwl agored sy'n darparu gwybodaeth i fyfyrwyr ac yn annog deialog agored.

Ein gwasanaethau a'n dull:

Rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sy'n adlewyrchu ein hymdrechion cydweithredol, gan gynnwys clinigau ar y campws ac amrywiaeth o adnoddau cefnogol wedi'u teilwra i'n cymuned. Mae ein hymrwymiad i leihau niwed yn cynnwys y gwasanaethau canlynol i fyfyrwyr a staff ym Mhrifysgol Aberystwyth:

- Gwasanaeth galw heibio wythnosol ar y campws
- Cymorth i ffrindiau a theulu
- Ymyriadau byr
- Datblygu sgiliau
- Atal ailwaelu

Rydym hefyd yn sicrhau y gall ein cymuned gael mynediad hawdd at y gwasanaethau canlynol trwy gydol yr wythnos yn yr hwb GCAD a Choices :

- Gwaith grŵp
- Gweithgareddau dargyfeiriol
- Ymyriadau seicogymdeithasol
- Gwasanaethau lleihau niwed
- Ôl-ofal

Mae GCAD a Choices yn darparu triniaeth 1:1 pwrpasol ac asesiadau rheng flaen sy'n canolbwyntio ar anghenion a nodau unigol, meithrin gwytnwch personol, a llwybrau at wella. Trwy bartneriaethau â Thimau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol y GIG, mae gan ein cymuned fynediad at gymorth cynhwysfawr, gan gynnwys presgripsiynau meddygol ac asesiadau lles cymdeithasol lle bo hynny'n briodol.

Gyda'n gilydd, rydym yn anelu at greu amgylchedd diogel, cynhwysol a blaengar lle mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae ein dull unigryw o leihau niwed yn adlewyrchu Gwerthoedd Craidd Prifysgol Aberystwyth:

- Trawsnewidiol
- Creadigol ac Arloesol
- Cynhwysol
- Uchelgeisiol
- Cydweithredol

Sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y cyfle i ffynnu.

| | | |
|---|---|---|
| Bayander Vundamina<br>Llywydd Undeb Myfyrwyr | Adam Whitehouse<br>GCAD & Choices | Ian Munton<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr |